
Cofnod Cyfarfod Awdurdod S4C
18 Medi 2014, S4C, Doc Fictoria, Caernarfon

Cyfarfod Rhif 379

Presennol:	Huw Jones	(Cadeirydd)
	Carol Bell	(Aelod o'r Awdurdod)
	John Davies	(Aelod o'r Awdurdod)
	Aled Eirug	(Aelod o'r Awdurdod)
	Guto Harri	(Aelod o'r Awdurdod)
	Marian Wyn Jones	(Aelod o'r Awdurdod)
	Siân Lewis	(Aelod o'r Awdurdod)
	Elan Closs Stephens	(Aelod o'r Awdurdod)
	Rheon Tomos	(Aelod o'r Awdurdod)
Staff S4C:	Ian Jones	(Prif Weithredwr)
	Garffild Lloyd Lewis	(Cyfarwyddwr Cyfathrebu)
	Elin Morris	(Cyfarwyddwr Polisi Corfforaethol a Masnachol)
	Dafydd Rhys	(Cyfarwyddwr Cynnwys)
	Phil Williams	(Ysgrifennydd yr Awdurdod)
	Bethan C. Williams	(Cynorthwydd i Ysgrifennydd yr Awdurdod)
Ymddiheuriadau:	Hugh Evans	(Darpar Aelod o'r Awdurdod)

1. **Croeso a Datganiadau diddordeb**

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod, yn arbennig Guto Harri i'w gyfarfod cyntaf fel aelod o'r Awdurdod.

Ni chafwyd unrhyw ddatganiadau diddordeb.

Gweler y Gofrestr Diddordebau yn adran yr Awdurdod ar wefan S4C ar gyfer datganiadau cyffredinol.

2. **Cofnodion cyfarfod 378** (a gynhaliwyd ar 10.07.14)

Cymeradwywyd cofnodion cyfarfod rhif 378.

3. **Materion yn Codi**

- 3.1 Cyfeiriwyd at adolygiad S4C o anghenion hyfforddiant y sector gynhyrchu a pherthynas yr adolygiad gyda chylch gorchwyl y gweinidog newydd gyda chyfrifoldeb am sgiliau a hyfforddiant, Ken Skates AC. Cadarnhaodd IHJ ei fod yn bwriadu trafod sgiliau a hyfforddiant gyda'r gweinidog yn fuan, a bod y gwaith o ran datblygu strategaeth sgiliau a hyfforddiant S4C yn parhau.

3.2 **Strategaeth cynnwys**

Nodwyd nad oedd cofnod y drafodaeth am y Strategaeth Cynnwys wedi ei gylchredeg i'r Aelodau, ac y bydd yr Awdurdod yn ei derbyn fis nesaf pan fydd yn ystyried yr adroddiad chwarterol cyntaf.

3.3 [**Crynodeb:** Bydd y Tîm Rheoli yn ystyried goblygiadau posibl canlyniad Refferendwm Annibyniaeth yr Alban i S4C yn ei gyfarfod nesaf.]

3.4 Cyfeiriwyd at gyhoeddi'r Adroddiad Blynyddol ym mis Gorffennaf, a nodwyd fod y cyhoeddiad wedi derbyn sylw cytbwys.

3.5 [**Crynodeb:** Trafodwyd Eisteddfod yr Urdd a chyfweliad gan y Cadeirydd ac yna cafwyd diweddariad am y trafodaethau ynglŷn â'r arbedion fyddai'n deillio o ddiddymu omnibws **Pobl y Cwm.**]

3.8 **System ddi-bapur**

Nodwyd nad oedd system Huddle yn weithredol hyd yma. Roedd aelod o staff wedi'i gymryd yn wael yn ddiweddar, ac roedd y cyfrifoldeb am gyflwyno'r system wedi ei drosglwyddo i aelod arall o staff. Bydd BCW yn cytuno amserlen ddiwygiedig gyda'r adran TG.

4. **Adroddiad y Cadeirydd**

Cyflwynodd y Cadeirydd ei adroddiad, gan gyfeirio'n benodol at y materion isod.

4.1 **Rhaglen Waith yr Awdurdod**

[**Crynodeb:** Cyfeiriodd at batrwm chwarterol newydd y Rhaglen Waith ac esboniodd y byddai'r patrwm newydd yn cael ei gyflwyno ym mis Hydref gydag adroddiad chwarterol Cynnwys a Dadansoddi yn cael ei gyflwyno i'r Awdurdod.]

Cyfeiriwyd at fesuryddion perfformiad yr Awdurdod, a nododd IHJ ei fod yn dymuno ail-ystyried nifer o elfennau'r mesuryddion er mwyn sicrhau eu bod yn addas ar gyfer asesu perfformiad a defnydd y gwasanaeth ar draws pob llwyfan. Bydd cyfle i'w hystyried ymhellach yn y Diwrnod i Drafod.

4.2 **Aelodaeth Pwyllgorau**

Esboniodd y Cadeirydd ei fod wedi bod yn ystyried aelodaeth pwyllgorau'r Awdurdod yn sgil aelodaeth newydd yr Awdurdod, a chyflwynodd yr argymhellion isod ar gyfer aelodaeth y pwyllgorau a chynrychiolaeth yr Awdurdod ar y Bwrdd Masnachol.

Pwyllgor Archwilio a Rheoli Risg:

Cadeirydd – Rheon Tomos (Hugh Evans o fis Tachwedd)

Carol Bell

Elan Closs Stephens

Siân Lewis

Pwyllgor Cwynion a Chydymffurfiaeth:

Cadeirydd – John Davies
Carol Bell
Aled Eirug
Guto Harri

Pwyllgor Cynnwys:

Cadeirydd – Aled Eirug
John Davies
Marian Wyn Jones
Siân Lewis

Pwyllgor Personél a Chydnabyddiaeth:

Cadeirydd - Marian Wyn Jones
Aled Eirug
Elan Closs Stephens
Rheon Tomos (Guto Harri o fis Tachwedd)

Pwyllgor Craffu Adleoli:

Cadeirydd – John Davies
Marian Wyn Jones

Bwrdd Masnachol:

Cadeirydd – Carol Bell
John Davies (tan fis Tachwedd)
Hugh Evans (o fis Tachwedd)

Cymeradwywyd yr argymhellion.

4.3 **Rheolau Sefydlog**

Cyfeiriwyd at y Rheolau Sefydlog a gymeradwywyd yn y cyfarfod diwethaf, a nodwyd fod cymal ychwanegol (cymal newydd 2) wedi ei gynnwys er mwyn egluro statws aelodau'r Awdurdod fel aelodau o endid statudol.

4.4 **Cofnodion Cyhoeddus yr Awdurdod**

Cafwyd trafodaeth ynglŷn â sut i gyflwyno cofnodion cyhoeddus yr Awdurdod, gydag awgrymiadau gwahanol yn cael eu cynnig gan aelodau sydd yn aelodau o fyrddau cyhoeddus eraill.

Esboniwyd bod S4C eisoes wedi derbyn cais rhyddid gwybodaeth yn gofyn am gopïau o gofnodion yr Awdurdod dros y ddwy flynedd diwethaf. Bwriedir rhyddhau'r cofnodion gyda nifer o faterion wedi eu golygu yn unol â gofynion y ddeddf rhyddid gwybodaeth.

Yn dilyn y drafodaeth penderfynwyd y dylid mynd ati i gyhoeddi Cofnod cyhoeddus o gyfarfodydd yr Awdurdod ac y dylid cyflwyno enghraifft o gofnodion cyhoeddus i gyfarfod yr Awdurdod ym mis Hydref.

5. Adroddiad y Prif Weithredwr

Cyflwynodd y Prif Weithredwr ei adroddiad, a chyfeiriodd yn benodol at y materion isod.

Nodwyd mai'r strapline newydd ar gyfer marchnata gwasanaethau S4C ydi "Eich Dewis Chi".

Roedd IHJ a DRh yn parhau i ystyried amserlen bresennol S4C.

Roedd y grŵp ariannu digonol hefyd yn ystyried goblygiadau posibl scenarios ariannol gwahanol ar y gwasanaeth yn yr hir dymor.

Ap Realiti

Roedd Ap Realiti (sy'n defnyddio technoleg 'augmented reality') wedi ei lansio gyda'r Adroddiad Blynyddol ym mis Gorffennaf. Esboniodd fod cynlluniau ar y gweill ar gyfer datblygu'r defnydd o'r Ap gyda nifer o bartneriaid.

[**Crynodeb:** Trafodwyd comisiynu cynnwys digidol a'r posibilrwydd o gomisiwn cerddorol.]

Cyfeiriodd at brosiect Cymru DNA Wales, ac esboniodd fwriad y cynllun i olrhain hanes trigolion Cymru drwy'r canrifoedd drwy dracio'u DNA. Bydd hwn yn arwain at raglen gychwynol ym mis Ebrill gyda chyfres yn dilyn ym mis Tachwedd 2015, a bydd partneriaid megis Wales Online a Trinity Mirror hefyd yn rhan o'r cynllun. Gobeithir lansio'r cynllun ar Fedi'r 24ain. Roedd yn gobeithio y bydd y prosiect yn cael impact sylweddol ar draws Cymru ac ar gyfryngau cymdeithasol yn enwedig.

[**Crynodeb:** Trafodwyd mater Masnachol.]

Ail-strwythuro'r Tîm Rheoli

Cyflwynodd IHJ ei gynlluniau ar gyfer ail-strwythuro'r Tîm Rheoli a'i ail-enwi'n Fwrdd Strategol a Rheoli. Roedd IHJ yn bwriadu adrodd yn ôl i'r Awdurdod ym mis Hydref a Thachwedd ar baratodau ar gyfer sefydlu'r bwrdd newydd.

Amcanion Corfforaethol

Bydd IHJ yn cyflwyno amcanion corfforaethol drafft ar gyfer 2015 yng nghyfarfod fis Rhagfyr. Nodwyd y byddai'r amcanion yn adlewyrchu prif elfennau'r strategaeth gynnwys, mesuryddion perfformiad, amcanion adrannol ac amcanion unigol staff.

Nododd y Cadeirydd ei fod yn awyddus i'r swyddogion ystyried arweiniad yr Awdurdod o ran blaenoriaethau strategol, ac yn argymhell ystyried cofnod cryno'r Diwrnod i Drafod fel rhan o'r broses.

[**Crynodeb:** Adroddodd IHJ ar gyfarfodydd diweddar a gynhaliwyd gyda nifer o Aelodau Seneddol.]

6. Adroddiad Ariannol

Adroddodd IHJ y bydd y drefn adrodd ariannol chwarterol yn cychwyn ym mis Tachwedd, a bydd Sharon Winogorski, Prif Swyddog Cyllid S4C yn cyflwyno'r adroddiad i'r Awdurdod. Mae gwaith ar y gweill er mwyn diweddarau fformat yr adroddiad, gan gynnwys symleiddio a chyflwyno'r ffigyrau mewn ffurf weledol.

7. Adroddiad Dadansoddi

Cyflwynwyd yr adroddiad ysgrifenedig ar gyfer y cyfnod Ebrill i Awst er gwybodaeth. Esboniwyd bod yr adroddiad yn cael ei gyflwyno er gwybodaeth gan nad oedd adroddiadau misol wedi eu cyflwyno ers Mehefin. Bydd adroddiad Cynnwys a Dadansoddi ar gyfer Ch1 a Ch2 yn cael ei gyflwyno ym mis Hydref, a bydd cyfle i drafod perfformiad y gwasanaeth yn ystod y cyfnod hwn.

8. Adroddiad y Cyfarwyddwr Cynnwys

Cyflwynodd DRh ei adroddiad ar lafar a chafwyd trafodaeth am raglenni ac arlwy'r gwasanaeth dros yr haf.

Y Sioe Frenhinol

Nodwyd fod defnydd helaeth wedi bod o'r ddarpariaeth ar-lein eleni o nifer fawr o wledydd, gyda chynnydd blwyddyn ar flwyddyn o 97%, a bod data ymwelwyr y sioe yn adlewyrchu patrwm defnyddwyr rhyngwladol Clic.

Roedd yr ymateb i'r ddarpariaeth o'r Sioe - ar y teledu ac ar-lein - yn hynod gadarnhaol eleni.

Yr Eisteddfod Genedlaethol

Cafwyd trafodaeth am arlwy'r Eisteddfod Genedlaethol a'r cydbwysedd rhwng dangos gweithgareddau'r pafiliwn a gweithgareddau'r maes. Roedd DRh yn bwriadu trafod gyda'r tîm cynhyrchu sut i adlewyrchu mwy o weithgareddau'r maes heb effeithio'n andwyol ar y ddarpariaeth o'r pafiliwn.

[**Crynodeb:** Cafwyd trafodaeth bellach am yr Eisteddfod a chafwyd trafodaeth am **Pobol y Cwm** ac ymateb y gynulleidfa i'r gyfres a'r straeon cyfredol. Roedd DRh yn trafod straeon Pobol y Cwm gyda'r tîm cynhyrchu.]

Chwaraeon

[**Crynodeb:** Cyfeiriwyd at arlwy'r **Clwb** ac at ddarpariaeth S4C o'r **Tour de France**. Trafodwyd y posibilrwydd o ddarlledu rhaglenni yn ymwneud â digwyddiadau megis Gemau'r Gymanwlad a allai gynnwys elfen gynhenid Gymreig.]

Y Refferendwm ar Annibyniaeth i'r Alban

Nodwyd y gwerthfawrogiad i ddarpariaeth S4C a'r BBC o'r refferendwm yn yr Alban hyd yma, yn enwedig rhaglen **Pawb a'i Farn** o'r Alban.

Ail-ddarlledu

Cyfeiriwyd at y defnydd o ailddarllediadau yn ystod y cyfnod ac awgrymwyd bod angen bod yn ofalus wrth ddewis rhaglenni i'w hail ddarlledu, er mwyn osgoi rhaglenni sydd wedi dyddio. Roedd yr adran gyflwyno yn ystyried addasrwydd rhaglenni i'w hail-ddarlledu.

[**Crynodeb:** Nododd DRh fod yr adran gyflwyno yn ystyried dilyniant rhaglenni ymhellach, gyda'r nod o gadw cynulleidfa o un rhaglen i'r nesaf.]

Rhaglenni unigol

[**Crynodeb:** Cafwyd trafodaeth am nifer o raglenni unigol a ddarlledwyd dros gyfnod yr haf.]

Nodwyd bod hyrwyddo rhaglenni S4C ar Radio Cymru yn ddatblygiad i'w groesawu.

Diolchodd y Cadeirydd i'r Aelodau am eu sylwadau am arlwy'r haf, a nododd y bydd cyfle pellach i ystyried perfformiad yr arlwy wrth drafod yr Adroddiad Chwarterol a'r Adroddiad Interim ym mis Hydref.

9. **Adroddiad o'r Pwyllgor Craffu Adleoli a Chytleoli**

Cyflwynodd JD adroddiad o gyfarfod y Pwyllgor Craffu a gynhaliwyd ar 16 Medi.

[**Crynodeb:** Rhoddodd ddiweddariad ar y trafodaethau cytundebol gyda PDDS. Roedd y Pwyllgor yn fodlon â'r cynnydd a wnaed ac wedi cymeradwyo arwyddo'r cytundeb ar y telerau a drafodwyd. Bwriedir arwyddo ym mis Hydref ar ddyddiad i'w gytuno.]

Diolchodd y Cadeirydd i JD am gyflwyno'r adroddiad a diolchodd JD i'r swyddogion am eu gwaith negydu gyda PDDS.

10. **Adroddiad o'r Pwyllgor Cwynion**

Cyflwynodd JD adroddiad o'r Pwyllgor Cwynion a Chydymffurfiaeth a gynhaliwyd ar 29 Awst.

[**Crynodeb:** Roedd y cyfarfod wedi ystyried ceisiadau ar gyfer adolygiad mewnol o ymatebion S4C i geisiadau rhyddid gwybodaeth.]

11. **Adroddiad o'r Pwyllgor Personél**

Cyflwynodd MWJ adroddiad o'r Pwyllgor Personél a gynhaliwyd ar 4 Medi. Esboniodd fod y Pwyllgor wedi derbyn cyflwyniad gan IHJ ac EM am drafodaethau parthed codiadau cyflog ar gyfer staff S4C yn 2014/15.

[**Crynodeb:** Trafodwyd y codiadau cyflog a chafwyd sgwrs bellach am y newid i'r Tîm Rheoli a gyflwynwyd yn adroddiad y Prif Weithredwr.]

12. **Adroddiad Cwynion a Gwifren Gwylwyr**

Cyflwynwyd adroddiad y Wifren a chyfeiriwyd at nifer o sylwadau penodol.

Cyfeiriwyd at nifer o gwynion yn ymwneud ag is-deitlau, a nodwyd fod nifer o faterion gwahanol yn effeithio ar allu gwylwyr i dderbyn is-deitlau, gan gynnwys diffygion yn y trosglwyddyddion, dim isdeitlau ar Clic, a phroblemau a diffyg gwybodaeth o ran gosodiadau teledu a blychau pen set ar gyfer dewis isdeitlau ac iaith isdeitlau. Nododd GLL y byddai'n trafod y materion hyn gyda'r Wifren a'r adran dechnegol.

Adroddwyd fod bwriad i gyflwyno is-deitlau ar Clic ar ddyfeisiau symudol yn y dyfodol, a gobeithir y bydd hyn, ynghyd â symleiddio'r wybodaeth sydd ar gael am raglenni a sut i'w darganfod yn gwella'r profiad o ran gwyllo S4C ar ddyfeisiau symudol.

[**Crynodeb:** Cafwyd cwynion am broblemau sain yn ystod yr Eisteddfod. Roedd DRh yn trafod y mater gyda'r BBC.]

Cafwyd trafodaeth am fformat a maint adroddiad y wifren, a phenderfynwyd y byddai tîm y Wifren yn addasu'r adroddiad er mwyn cynnwys crynodeb gweithredol o'r prif faterion i'w dwyn i sylw'r Awdurdod. Bydd GLL yn trafod opsiynau gyda'r Wifren.

Cyflwynwyd yr adroddiad cwynion er gwybodaeth.

13. **Unrhyw fater arall**

Ni thrafodwyd unrhyw faterion eraill

14. **Dyddiad Cyfarfod Nesaf**

Cynhelir cyfarfod nesaf yr Awdurdod ar ddydd Iau, 16 Hydref.